

Y Tyllgoed: Llwybrau Diogel yn y Gymuned 2017/18
Cyfleusterau i Gerddwyr yn Ffordd Sain Ffagan

Adroddiad Ymgynghori

Rhif y Project: CO17000

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 22/06/2017 a 07/07/2017.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan fydd yn bosibl.

O'r 116 eiddo yr ymgynghorwyd â nhw a'r 4 hysbysiad safle a arddangoswyd ar y safle, derbyniwyd 8 ymateb unigol, yn cynnwys rhai ysgrifenedig ac ar y ffôn, wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- 3 Cefnogi'r cynllun
- 2 Sylwadau/awgrymiadau ar gynigion
- 3 Anghytuno â'r cynigion

Crynoir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgrifenedig *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir bwrw ymlaen gyda'r cynllun, fel y nodir yn y cynllun ymgynghori, yn amodol ar y cyllid fydd ar gael.

Mater 1 – Swyddog Croesi Ysgol

“beth fydd yn digwydd i swydd y ddynes lolipop sydd wedi gweithio yma'n ddifflino ers blynyddoedd??”

“gyda chroesfan newydd, a ellir gwarantu na fyddwn ni'n colli'r swyddog croesi?”

Ymateb i Fater 1

O ran y Swyddog Croesi Ysgol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynigion i gael gwared â'r Swyddog o'r safle hwn. Yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Swyddogion Croesi Ysgolion (SCY), caniateir i SCY weithredu ar groesfan sebra.

Mater 2 – Colli Mannau Parcio

“Y mater arall yw'r broblem yn ymwneud â pharcio i breswylwyr 204-214, mae o leiaf 14 cerbyd wedi cofrestru i'r cyfeiriadau hyn ac mae bob amser yn broblem i ni barcio y tu allan i'n cyfeiriadau perthnasol. Ble rydych chi'n cynnig i ni barcio ein cerbydau??”

“Rwyf yn erbyn gosod croesfan sebra ddirchafedig y tu allan i fy nhŷ, mae gennym safle bws eisoes y tu allan i 272 , gyda chroesfan byddai'n rhaid symud y safle bws. Ni fyddai modd i fi na fy nghymdogion barcio yn agos at ein tŷ gan nad oes gan rhai ohonom y cyfleuster i barcio oddi ar y ffordd”

“Rydym hefyd yn gwybod y bydd parcio yn dod yn achosi ychydig mwy o straen oherwydd y bydd nifer y manau parcio ar y stryd yn lleihau i gymdogion ar ochr arall y ffordd”

“er nad ydym yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig fel y cyfryw, mae gennym ni, fel preswylwyr lleol, bryderon o ran parcio. O edrych ar y map, mae'n ymddangos na fydd modd parcio y tu allan i'n heiddo mwyach o ganlyniad i leoliad y groesfan. Mae'r map yn awgrymu y bydd llinellau igam-ogam gwyn yn nodi na chaniateir parcio.”

Ymateb i Fater 2

Os nad oes modd i breswylwyr barcio oddi ar y ffordd, byddai angen iddynt ddod o hyd i fan parcio priodol mewn lleoliad diogel a chyfreithiol yn rhywle arall.

Priffyrdd cyhoeddus yw'r ffyrdd ac felly mae gan holl aelodau o'r cyhoedd hawliau cyfartal yn ôl y gyfraith i ddefnyddio'r ffyrdd, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith. Nid oes gan breswylwyr fwy o hawliau o ran defnyddio'r ffordd y maen yn byw ynnddi nac unrhyw berson arall.

Mae'r marciau ffordd igam-ogam sy'n gysylltiedig â'r groesfan sebra yn ymestyn am ddim mwy na tua 16 metr ar bob ochr o'r groesfan, ac felly, dim ond ychydig o fannau parcio gaiff eu colli.

Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol o'r galw am leoedd parcio a byddwn yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod cymaint â phosibl o leoedd parcio ar gael o fewn y math hwn o gynllun. Fodd bynnag, mae diogelwch cerddwyr a'u galluogi i symud yn ddiogel a chyfleus, yn enwedig i'r ysgol ac adref, yn cael ei ystyried yn bwysig iawn. Yn unol â pholisïau a strategaeth y Cyngor, mae hwn yn bwysicach na darparu lleoedd parcio. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y sylwadau hyn ac yn ystyried beth y gellir ei wneud yn ystod y broses ddylunio fanwl i wella nifer y manau parcio sydd ar gael.

Mater 3 – Mynediad at Dramwyfeydd

“Mae hefyd gan dri o'r cyfeiriadau hyn fannau parcio oddi ar y ffordd o flaen eu heiddo y mae angen iddynt gael mynediad atynt.”

“Byddai'n cael effaith fawr arnaf fi o ran gallu mynd ar fy nreif gan y byddai'r groesfan sebra yn union ar fynedfa fy nreif,”

Ymateb i Fater 3

Mae'r groesfan zebra wedi'i lleoli rhwng Rhif 212 a Rhif 214, ac ni fydd y cynigion yn effeithio ar y fynedfa i ddreif Rhif 212. Mae'r bwrdd arafu wedi'i ledu i wneud lle i

ddreif Rhif 212, bydd mynediad at y dreif ar ben y bwrdd arafu newydd, ac nid y trefniant cwrbyn isel cyfredol.

Nodwyd bod gan Rif 214 a Rhif 216 erddi blaen palmantog, ond nad oes ganddynt groesfannau cerbydau gyda chyrbau isel. Mae'n drosedd i yrru ar lwybr cerdded oni bai bod croesfan cerbydau wedi'i hawdurdodi a'i gosod. Yn ogystal â'r rhesymau'n ymwneud â diogelwch, mae hyn oherwydd y gallwch ddifrodi'r llwybr cerdded neu unrhyw bibelli neu geblau sydd oddi tano. Os yw'r eiddo hyn am wneud cais am drwydded croesfan cerbydau yn y dyfodol, mae'r bwrdd arafu a'r rhwystrau ymwithiol wedi'u lleoli fel na fyddant yn atal y rhain rhag cael eu hadeiladu, yn amodol ar Gymeradwyaethau cywir.

Mae proses ffurfiol i gael Cytundeb Priffordd ar gyfer croesfan cerbydau. Mae St Fagans Road yn ffordd ddosbarthiadol, felly bydd angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer unrhyw groesfan cerbydau yn y dyfodol hefyd. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk

Mater 4 – Hen gynllun

“Am un peth, nid yw cynllun y cynnig yn gyfredol, mae'n dangos y llain glaswellt o flaen rhif 214 nad yw wedi bod yno am DDENG mlynedd erbyn hyn, mae'n rhan o ardd flaen fy nghymydog!

“Mae'r map arolwg a ddarparoch yn anghywir. Prynais y tir o flaen fy nghartref yn 2005.”

Ymateb i Fater 4

Mae'r holl waith sy'n gysylltiedig â'r groesfan sebra yn cael ei wneud o fewn terfynau'r briffordd fabwysiedig, ni chaiff gwaith ei wneud o fewn terfyn yr eiddo preifat.

Nid yw'r Cynllun Arolwg Ordnans wedi'i ddiweddarau yn dilyn y newidiadau i berchenogaeth tu blaen eiddo 214-218 St.Fagans Road. Nid y Cyngor sy'n gyfrifol am ddiweddarau'r Cynllun Arolwg Ordnans.

Mater 5 – Cost y Cynllun

“mae ychwanegu byrddau artiffisial a chulhau'r lôn gerbydau yn gwbl ddiangen a gwastraff llwyr o arian! Byddai'n well petai'r Cyngor yn defnyddio'r arian i arwynebu ac atgyweirio ceudyllau a phalmentydd yn ardal y Tyllgoed sy'n beryglus i yrwyr a cherddwyr.

Ymateb i Fater 5

Mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu gan Grant Llwybrau Diogel yn y Gymuned Llywodraeth Cymru. Nid yw'n bosibl i Swyddogion ddefnyddio'r Grant hwn at ddibenion nad yw'n ymwneud â'r rhai a benderfynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mater 6 – Lleoliad y groesfan sebra

“Oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr i ail-leoli'r groesfan fel y bydd ymhellach i lawr St Fagans Road, o bosibl yn lleoliad y 'lloches' presennol, sy'n gyferbyn â Rhifau 289/290?”

Ymateb i Fater 6

Mae arolygon llifoedd cerddwyr wedi'u gwneud wrth ddatblygu'r cynllun. Yn ôl yr arolygon hyn, croesodd mwy o gerddwyr St.Fagans Road yn Fairways Crescent, nac yn y lloches bresennol i gerddwyr. Mae cerddwyr yn anfodlon cerdded ymhellach i ddefnyddio croesfan ac felly byddai llawer yn dewis peidio â gwyro o'r llinell ddymunol wrth groesi, trwy fanteisio ar flychau yn y traffig. Mae astudiaethau cenedlaethol wedi dangos bod hyn yn arwain at gyfradd damweiniau uwch na phe na bai croesfan yn y safle. Am y rheswm hwn, ystyrir bod gosod y groesfan yn lleoliad y llinell ddymunol o'r pwys mwyaf.

Bydd lleoli'r groesfan sebra yn agos at Fairways Crescent yn creu cyfleuster gwell ar gyfer teithwyr bws.

Mater 7 – Lloches Cerddwyr

“Allwch chi gadarnhau a gaiff y lloches ei gwneud yn fwy nac y mae hi ar hyn o bryd wrth iddi gael eu huwchraddio? Mae mynd i mewn a gadael fy nreif anghyfleus yn barod felly byddwn yn gobeithio na fyddai hyn yn digwydd.”

Ymateb i Fater 7

Ar hyn o bryd, mae'r lloches yn gul iawn ac rydym ni'n cynnig cynyddu maint y lloches i fodloni safonau dylunio cyfredol. Yn ystod y broses ddylunio fanwl, byddwn yn gwneud dadansoddiad o'r llwybr cerbydau i sicrhau nad yw mynediad at ddreifiau yn cael eu rhwystro.

Mater 8 – Cyffordd St.Fagans Road a Fairways Crescent

“wrth drïo troi i'r de o Fairways Crescent i deithio ar hyd St Fagans Road, mae gwelededd yn broblem yn sgil coed yn eu llawn dwf a cheir wedi'u parcio”

“rydym yn pryderu y bydd y bysus sy'n mynd o gwmpas y gyffordd hon yn cael trafferth gydag effaith y rhwystrau ymwithiol uwch – ar hyn o bryd mae angen iddynt droi gan ddefnyddio cylch eang er mwyn mynd o gwmpas y gornel i fynd i lawr Fairways Crescent, ac eto gallai dechrau ar fryn wrth fynd lan St Fagans Road achosi problemau os oes angen iddynt stopio'n sydyn oherwydd bod cerddwr yn croesi'r ffordd.”

“Byddai angen i draffig sy'n teithio i fyny'r bryn (Fairways Cresc.) ac yn troi i'r de i ymuno â St Fagans Road gychwyn ar fryn, traffig (llawer ohono yn ystod amseroedd prysur) yn dod o'r ddau gyfeiriad ar hyn St Fagans Road, yn ogystal â cherddwyr yn croesi'r ffordd, i gyd o fewn lle o tua 10 metr.”

“Mae ychydig fysus, gan gynnwys Rhifau 64 a 65 yn teithio i/o Ysbyty’r Brifysgol yn y Mynydd Bychan, yn defnyddio Fairways Crescent. Mae defnyddio’r gyffordd gyda St Fagans Rd yn ddign anodd iddynt nawr; bydd y cynnig i gulhau’r ffordd ar y pwynt hwn yn gwneud y gyffordd yn fwy anodd a pheryglus o bosibl.”

Ymateb i Fater 8

Bydd y rhwystr ymwithiol newydd yn galluogi gyrwyr i yrru ymlaen i St.Fagans Road a bydd yn gwella gwelededd ar gyfer gyrwyr sy’n aros wrth y gyffordd.

Bydd marciau igam-ogam y groesfan sebra yn cael gwared â manau parcio yn agos at y gyffordd, bydd hyn yn gwella gwelededd ar gyfer gyrwyr sy’n gadael Fairways Crescent.

Yn ystod y broses ddylunio’r cysyniad rydym wedi asesu llwybrau bysus sy’n defnyddio’r gyffordd. Gallwn gadarnhau y gall bysus symud yn ddiogel. Adolygir hyn eto yn ystod y broses ddylunio fanwl pan gaiff siâp terfynol y rhwystr ymwithiol ei ddylunio.

Mater 9 – Gweithredu bysus

“A yw’r cwmni bysus wedi bod yn rhan o’r ymgynghoriadau am godi ac ymwithio’r ffordd ar y pwynt hwn?”

“gyda chroesfan byddai angen symud y safle bws”

Ymateb i Fater 9

Ymgynghorwyd â’r cwmnïau bysus lleol wrth ddatblygu’r cynllun hwn, ynghyd â’r Gwasanaethau Brys.

Nid yw’r safleoedd bysus yn cael eu symud dan y cynigion hyn.

Mater 10 - Coed

“Nid oes unrhyw sôn beth fydd yn digwydd i’r coed yn y ddogfen hon.”

Ymateb i Fater 10

Ymgynghorwyd ag adran Parciau’r Cyngor wrth ddatblygu’r cynllun hwn. Caiff gwaith adeiladu ei wneud yn unol â’u cyfyngiadau. Nid ydym yn cynnig cael gwared â’r coed fel rhan o’r cynllun hwn.

Cefnogaeth i’r cynllun

“Gallaf weld y budd o ychwanegu croesfan sebra yn agos at gyffordd St Fagans Road a Fairways Crescent.”


“Rwy’n cymeradwyo gosod croesfan yn agos at wellright road gan mai dyma leoliad yr ysgol ac mae angen croesfan yno”

“Yn naturiol rydym yn croesawu gwelliannau a fydd yn arwain at amgylchedd diogelach ar gyfer cerddwyr, gyrwyr a thrigolion.”

“Rydym yn deall yr angen i sicrhau mannau croesi diogel yn St Fagans Road ac yn gwerthfawrogi gwaith y Cyngor o wella hyn.”

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy of the post-consultation report.